# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 262(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - Y Diweddaraf am yr Uwchgynhadledd Argyfwng am y Llifogydd

(60 mun)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Gohiriwyd tan 3 Mawrth 2020

(0 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru - strategaeth dulliau modern o adeiladu ar gyfer Cymru

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru: Prosiectau Metro yng Nghymru

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynnydd ar y Llwybr Canser Sengl - Gohiriwyd tan 17 Mawrth 2020

(0 munud)

## 8 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Deddfwriaeth yn ymwneud â gadael yr UE

(45 munud)

## 9 Rheoliadau Rhenti Cartrefi (Ffioedd etc) (Taliadau Diofyn) (Terfynau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

(15 munud)

**NDM7273** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Terfynau Rhagnodedig ar gyfer Taliadau Diffygdaliad) (Cymru) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

(5 munud)

**NDM7272** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) Adrannau 2 - 12;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 13 - 21;

d) Atodlen 2;

e) Adrannau 22 - 25;

f) Atodlen 3;

g) Adrannau 26 - 28;

h) Adran 1;

i) Teitl hir.

## 11 Dadl: Adolygiad Blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2018-2019

(60 munud)

**NDM7271** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Adroddiad Effaith Cymru 2018-19.

Adroddiad Effaith Cymru 2018-19

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer diogelu hawliau dynol mewn ffordd gadarn ac ystyrlon nawr bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd.

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 26 Chwefror 2020